| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **1 Rhagfyr 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **David Smith - Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Graham Boase - Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**<br>**Emlyn Jones - Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Is-Ddeddfau Cerbydau Hacni Diwygiedig Arfaethedig** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn i Aelodau gymeradwyo'r Is-ddeddfau diwygiedig mewn perthynas â Cerbydau Hacni.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Y rheswm am yr adroddiad hwn yw ceisio mabwysiadu is-ddeddfau wedi'u diwygio a chyfredol i sicrhau dull teg, tryloyw a chyson wrth benderfynu ar unrhyw faterion gorfodi cerbyd hacni.

2.2 Y rheswm dros ddod â'r adroddiad i'r Cyngor Llawn yw bod gwneud is-ddeddfau o dan a68 o Ddeddf Cymalau Heddlu Tref 1847 yn swyddogaeth y Cyngor (yn hytrach na swyddogaeth Weithredol) o dan y Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Is-ddeddfau Enghreifftiol yr Adran Drafnidiaeth, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn, yn cael eu mabwysiadu.

3.2 Caniatáu i Swyddogion anfon yr Is-ddeddfau Enghreifftiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w cadarnhau.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

4.1 Mae'r Cyngor, fel yr Awdurdod Trwyddedu, yn gyfrifol o dan Ddeddf Cymalau Heddlu Tref 1847, a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 am drwyddedu a gorfodi Cerbydau Hacni a'u gyrwyr.

4.2 Ers ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 mae'r Cyngor wedi arfer y cyfrifoldeb hwn drwy Amodau Trwyddedu Cerbyd Hacni a Hurio Preifat y Cyngor (Y Llyfr Glas) a thrwy Is-ddeddfau mewn perthynas â’r Rhyl a Phrestatyn yn unig.

4.3 Mae’r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi dweud wrthym y dylai’r Cyngor fabwysiadu Is-ddeddfau ar gyfer y Sir gyfan er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth yn gywir ac i sicrhau bod dull teg, tryloyw a chyson yn cael ei gymryd wrth benderfynu ar orfodaeth a materion eraill sy'n ymwneud â cherbydau hacni a gyrwyr.

4.4 Mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT) wedi cynhyrchu set o Is-ddeddfau Enghreifftiol fel sail i awdurdodau lleol eu defnyddio (Atodiad 1). Rydym yn bwriadu mabwysiadu'r is-ddeddfau enghreifftiol hyn.

4.5 Cyflwynodd y Swyddogion adroddiad i Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu ym mis Medi 2014 yn argymell mabwysiadu Is-ddeddfau Enghreifftiol yr Adran Drafnidiaeth ac ymgynghori gyda phob Perchennog a Gyrrwr Cerbydau Hacni.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd y polisi yn cyfrannu at dwf economaidd / datblygu'r economi / diogelu pobl ddiamddiffyn drwy reoleiddio'r sector cerbydau hacni yn y sir.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gellir ei weld yn Atodiad 2.

6.2 Yr unig gostau sy'n gysylltiedig â’r adolygiad hwn yw'r gofyniad i hysbysebu'r is-ddeddfau yn y wasg leol. Mae gweddill yr adolygiad wedi ei gynnal o fewn y cyllidebau gwasanaeth presennol. Bydd costau gweithredu'r is-ddeddfau yn cael eu cynnwys o fewn y gyllideb gwasanaeth presennol.

## 7. Pa ymgynghori a wnaed?

7.1 Ymgynghorwyd gyda’r Pwyllgor Trwyddedu a phob Perchennog a Gyrrwr Cerbydau Hacni. O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwnnw, nid oes unrhyw sylwadau wedi dod i law.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Dylai costau gweithredu'r is-ddeddfau diwygiedig sy'n ymwneud â materion gorfodi cerbydau hacni gael eu cynnal o fewn y cyllidebau

presennol. Mae trefniadau monitro cyllideb cadarn yn eu lle i sicrhau bod hyn yn digwydd.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Gall peidio â bod ag Is-ddeddfau cyfredol yn eu lle greu anghysonderau ar draws y Sir, felly mae'n bwysig, er mwyn galluogi gwell rheoleiddio, mabwysiadu'r Is-ddeddfau enghreifftiol.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1 Mae Adran 68 o Ddeddf Cymalau Heddlu Tref 1847 yn caniatáu i awdurdod lleol wneud is-ddeddfau ar gyfer rheoleiddio ymddygiad perchnogion a gyrwyr Cerbydau Hacni o fewn ardal eu hawdurdod.